



PRENTIS CYFLOGRES

Cytundeb am Flwyddyn

Rhif Swydd: 503024

Graddfa 4: CYFLOG £21,575 - £21,968 y flwyddyn

37 awr yr wythnos

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o'r Gwasanaethau mwyaf blaenllaw yn y DU a'r mwyaf o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae ein hardal Gwasanaeth yn ymestyn o Gas-gwent, yn y dwyrain i Fynydd Cynffig, yn y gorllewin ac o arfordir deheuol Cymru i'r Bannau Brycheiniog, yn y Gogledd. Rydym yn gweithredu o 47 o orsafoedd tân ar draws ardal y Gwasanaeth a lleolir ein Pencadlys yn Llantrisant.

Ar hyn o bryd mae gennym gyfle amrywiol a heriol ar gyfer Brentis Cyflogres i ymuno â'n tîm cyflogres prysur sydd wedi'i leoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân Llantrisant. Byddai'r swydd hon yn ddelfrydol i rywun sydd â diddordeb mewn gyrfa gyda'r gyflogres. Byddwch yn cael eich hyfforddi mewn gwahanol agweddau o waith cyflogres a gweinyddu, ac yn gweithio gyda chydweithwyr i ddarparu gwasanaeth cyflogres ymrwymedig a phroffesiynol. Bydd y cyfle gwych hwn yn cynnig cyfle i'r ymgeisydd llwyddiannus astudio cymhwyster y Sefydliad Siartredig Gweithwyr Cyflogres. Mae hwn yn gyfle gwych i ddatblygu gyrfa werthfawr a llwyddiannus gyda'r gyflogres. Nid oes angen profiad blaenorol o fewn amgylchedd cyflogres arnoch, gan y byddwn yn darparu'r holl hyfforddiant a datblygiad angenrheidiol ar eich cyfer.

Rydym yn chwilio am rywun sy'n awyddus i weithio o fewn amgylchedd prysur, sy'n drefnus, â dawn i drin rhifau. Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid ydynt yn hanfodol ar gyfer y swydd hon. Mae'n bosib, ar ôl ymgymhwyso, y bydd cyfle i'r ymgeisydd cywir gael swydd barhaol, gan symud i rôl Swyddog Cyflogres, ar ôl y flwyddyn gyntaf. Rhaid i'r ymgeisydd allu ymrwymo i gwblhau cymhwyster y Sefydliad Siartredig Gweithwyr Cyflogres, un diwrnod yr wythnos, wrth gyflawni'r rôl brentisiaeth. Darperir cymorth astudio llawn gan y Gwasanaeth. Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol a Gwiriad gan Wasanaeth Datgelu'r Alban cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Clare Smith, Rheolwr Cyflogres ar 01443 232078. Neu gallwch gysylltu drwy law e-bost: c-smith@decymru-tan.gov.uk

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrru trwy ein gwefan: <https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-qwag-diweddaraf/> Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwrch: personel@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00 ganol dydd 05/03/2023**.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweiliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwir werth cael gweithlu amrywiol ac yr ydym rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i wneud cais